| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **15 MAWRTH 2018** |
| TEITL: | **BUDDSODDI A LLYWODRAETHU CYFRIFOL** |
| PWRPAS: | **Gofyn i'r Pwyllgor Pensiynau fabwysiadu egwyddorion sylfaenol ynghylch buddsoddi cyfrifol** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

**1. Cyflwyniad**

Trafodwyd papur ar Gytuno Credau Buddsoddi Cyfrifol yn y Panel Buddsoddi ar 28 Chwefror. Roedd y papur hwnnw'n cynnwys yr egwyddorion a restrir yn 2.1 a 2.3 - 2.5 isod. Yn dilyn ystyriaeth, ychwanegodd y Panel yr egwyddor awgrymir yn 2.2 isod.

**2. Credau Buddsoddi Cyfrifol**

**2.1** Yn unol â dyletswydd ymddiriedol y Pwyllgor, dylai ystyriaethau ariannol gario mwy o bwysau nac ystyriaethau anariannol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, er gall faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ('ESG') gael effaith materol ar risg a dychweliadau. Felly, dylai ffactorau 'ESG' gael eu mewnblannu yn y prosesau buddsoddi a phrosesau penderfynu'r rheolwyr penodwyd gan y Gronfa.

**2.2** Bydd Pwyllgor y Gronfa yn edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy, gan gynnwys buddsoddi o fewn ardal Cymru pan fydd buddiannau anariannol yn gallu deillio o hynny, yn amodol ar fodloni gofynion y ddyletswydd ymddiriedol.

**2.3** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod ganddynt ddyletswydd i fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Disgwylir y bydd ymgysylltu gyda chwmnïau, yn hytrach na pheidio buddsoddi, yn fwy effeithiol i newid ymddygiad corfforaethol a lleihau risg. Lle'n bosib, mae gweithrediad cydweithredol yn cynnig y ffordd fwyaf llwyddiannus er mwyn dylanwadu ar allbynnau.

**2.4** Fel buddsoddwr hirdymor, mae'r Gronfa yn agored i risgiau systemig megis newid yn yr hinsawdd a'r disgwyliad i drawsnewid i economi carbon-isel. Gellir gwella deilliannau ariannol wrth reoli pa mor agored i risgiau o'r fath y mae'r Gronfa.

**2.5** Gellid gwella dealltwriaeth rhanddeiliad a gwella deilliannau trwy ddatgelu ar hyd pob cam o'r gadwyn ychwanegu gwerth.

**3. Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r egwyddorion buddsoddi cyfrifol a restrir yn 2.1 - 2.5 uchod, i'w cynnwys yn Natganiad Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa.